Gareth Morgans, B.Ed., M.Sc.

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2, Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin, SA31 3HB

Director of Education & Children's Services
Department for Education & Children,
Building 2, St David's Park,
Jobs Well Road, Carmarthen,
Carmarthenshire SA31 3HB

Ffôn •Tel : **01267 246522**

Ffacs • Fax : 01267 246746

e-bost • e-mail :
EDGMorgans@sirgar.gov.uk
EDGMorgans@carmarthenshire.gov.uk

Eich cyf • Your ref :

Fy nghyf • My ref : 2129/30/SMG

Dyddiad • Date : 18/01/17

Gofynner am • Please ask for : Sara Griffiths

Llinell Uniongyrchol • Direct Line: 01267 246618

Annwyl Ymgynghorai,

Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir –
Y Ddarpariaeth Addysg Gynradd yn y dyfodol yn Ardal Llangennech

Ddydd Mercher, 18 Ionawr 2017, cymeradwyodd Cyngor Sir Caerfyrddin y cynnig canlynol:

- ***Cau Ysgol Babanod Llangennech ar 31 Awst 2017;***
- ***Cau Ysgol Iau Llangennech ar 31 Awst 2017;***
- ***Sefydlu ysgol Cyfrwng Cymraeg (CC) newydd (yr "Ysgol Newydd") a fydd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar safleoedd ac yn adeiladau presennol Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 ac 11 oed o 1 Medi 2017.***

Ystyriodd y Cyngor y cynnig yn unol â gofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013 a nododd bod 1,418 o sylwadau (720 o wrthwynebiadau a 698 o sylwadau cefnogol) wedi dod i law ynghylch y cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Wrth ddod i benderfyniad ar y cynnig, ystyriodd y Cyngor y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellwyd yn nogfen *Côd Trefniadaeth Ysgolion* 2013 fel a ganlyn:

Ansawdd a safonau mewn addysg

Barn Estyn oedd y byddai'r cynnig i uno'r ddwy ysgol yn debygol o gynnal y safonau addysgol presennol yn yr ysgol gan nodi bod y cynigydd wedi rhoi ystyriaeth drylwyr i effaith y cynigion ar ansawdd y canlyniadau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn yr ysgol a'i fod wedi rhoi ystyriaeth briodol ynghylch y tarfu posibl ar ddisgyblion presennol. Dyfarnodd arolygiadau diweddaraf Estyn o Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech ym mis Mehefin 2015, a chyn hynny ym mis Rhagfyr 2010, bod y ddwy ysgol yn dda. Mae'r safonau hyn wedi cael eu cynnal ers yr arolygiadau cynt a chodwyd safonau ymhellach mewn rhai pynciau.

Mae'r Cyngor wedi ystyried bod y cynnig yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin i gynyddu'r ddarpariaeth o ran addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr awdurdod lleol ac yn sicrhau bod parhad ieithyddol o'r sector meithrin drwy'r cyfnodau allweddol hyd at y sector uwchradd, fel bod pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mi wnaeth y Cyngor gydnabod y bydd y cynnig yn darparu trefniadau bugeiliol gwell a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion. Bydd hyn yn ei dro yn galluogi'r ysgol i ddarparu amrywiaeth ehangach o raglenni penodol i gynorthwyo'r dysgu. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei chryfhau i ddarparu amrywiaeth eang o arbenigedd mewn meysydd lle mae angen hynny. Hefyd bydd yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygu staff gan gynnwys y cyfle i ddatblygu eu sgiliau o ran y cyfan o'r cwricwlwm oed cynradd.

Bydd yr "Ysgol Newydd" yn rhoi mynediad i ddisgyblion, sy'n cael eu haddysgu ar hyn o bryd yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech, i ysgol â darpariaeth a safonau da, a hynny o dan arweiniad ardderchog Tîm Rheoli cadarn a Chorff Llywodraethu effeithiol ac ymroddedig.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, mae'r Cyngor wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael a'r galw tebygol am leoedd yn y dyfodol, ynghyd â'r galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn ardal Llangennech. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae canran y disgyblion sy'n mynychu'r ffrwd Gymraeg yn y ddwy ysgol wedi cynyddu yn sylweddol, wrth i ganran y disgyblion sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yn y ddwy ysgol ostwng, gan amlygu'r galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hwn yn newid naturiol ar gyfer yr ysgol a bydd yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg digonol sy'n ateb y gofynion cynyddol.

Ni fydd dim newid i ddisgyblion presennol yr ysgol. Bydd unrhyw ddisgybl sy'n cychwyn yn yr ysgol ar ôl i'r cynnig gael ei weithredu yn cael ei addysgu yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd Saesneg yn cael ei addysgu fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2.

Adnoddau addysg

Cafodd nifer o faterion eu hystyried wrth gyrraedd y penderfyniad hwn, yn benodol y cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ffrwd Gymraeg yn y blynyddoedd diweddaraf a'r gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg.

Mae'r Cyngor wedi ystyried bydd yr "Ysgol Newydd", yn debyg i Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech, yn cael ei chyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y

Sir a bydd yn derbyn adnoddau gan ddefnyddio'r un meini prawf ag unrhyw ysgol arall yn y sir a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion.

Byddai unrhyw arbedion ariannol yn y dyfodol yn cael eu hail-fuddsoddi yn y gwasanaeth addysg.

Gwrthwynebiadau i'r Cynnig

Daeth 720 o wrthwynebiadau a 698 o sylwadau cefnogol i law mewn ymateb i'r hysbysiad statudol.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu ar gyfer y cynnig hwn bellach ar gael i'w weld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin drwy ddilyn y gwe-gyfeiriad isod:

www.sirgar.llyw.cymru/RhFY-ysgolioncynradd

Dilynwch y ddolen hon i'ch tywys i dudalen we yr ysgolion cynradd a chliciwch ar y ddolen ar gyfer Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.

Ystyriodd y Cyngor y gwrthwynebiadau a'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law a chytunodd fod yr argymhellion yn symud yr ysgolion ymlaen yn naturiol ar hyd continwwm yr Iaith Gymraeg yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2014-2017.

Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru

Petai unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Sara Griffiths o'r adran hon.

Yn gywir,

Gareth Morgans
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Gareth Morgans, B.Ed., M.Sc.

Cyfarwyddwr Addysg
a Gwasanaethau Plant
Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2, Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin, SA31 3HB

Director of Education & Children's Services
Department for Education & Children,
Building 2, St David's Park,
Jobs Well Road, Carmarthen,
Carmarthenshire SA31 3HB

Ffôn •Tel : **01267 246522**

Ffacs • Fax : **01267 246746**

e-bost • e-mail :
EDGMorgans@sirgar.gov.uk
EDGMorgans@carmarthenshire.gov.uk

Eich cyf • Your ref :

Fy nghyf • My ref : *2129/30/SMG*

Dyddiad • Date : *18/01/17*

Gofynner am • Please ask for : *Sara Griffiths*

Llinell Uniongyrchol • Direct Line: *01267 246618*

Dear Consultee,

Notification of County Council Decision -
Future Primary Education Provision in the Llangennech Area

On Wednesday 18th of January 2017, Carmarthenshire County Council approved the proposal as follows:

- ***To discontinue Llangennech Infants School on 31 August 2017;***
- ***To discontinue Llangennech Junior School on 31 August 2017;***
- ***To establish a new Welsh Medium (WM) school (the "New School") to be maintained by Carmarthenshire County Council at the existing sites and buildings of the current Llangennech Infants and Llangennech Junior schools for boys and girls aged 3-11 from 1 September 2017.***

The Council considered the proposal in accordance with the requirements of the School Organisation Code 2013 and noted that 1,418 submissions (720 objections and 698 supportive comments) had been received in respect of the proposal during the statutory objection period.

In determining the proposal the Council took into account the following factors as outlined in the School Organisation Code 2013 as follows:

Quality and standards in education

It was Estyn's opinion that the proposal to merge the two schools is likely to maintain the current educational standards at the school and notes that the proposer has given thorough consideration to the effect of the proposals on the quality of outcomes, provision and leadership at the school and has given appropriate consideration to possible disruption for current pupils. Estyn's most recent inspections of both Llangennech Infants and Llangennech Junior schools in June 2015 and previously in December 2010 judged both schools to be good. These standards have been maintained since previous inspections and standards have been raised further in certain subjects.

The Council has considered that the proposal is in line with Carmarthenshire's Welsh in Education Strategic Plan to increase the provision of Welsh medium education in the local authority and ensures linguistic continuity from the nursery sector along the key stages to the secondary sector so that every pupils becomes fluent and confident in Welsh and English. The Council acknowledged that the proposal will provide improved and enhanced pastoral arrangements and targeted support for particular groups of pupils which in turn will enable the school to deliver a wider range of specific programmes to support learning. The provision for pupils with ALN will be strengthened to provide a wide range of specialism in areas where it is needed. The proposal will also offer greater opportunities for staff development including the opportunity to develop their skills over the whole primary age curriculum.

The "New School" will provide pupils currently being educated at Llangennech Infants and Llangennech Junior schools with access to a school that has good standards and provision, under the excellent leadership of a strong Management Team and an effective and committed Governing Body.

Need for places and the impact on accessibility of schools

In approving this proposal, the Council has considered the sufficiency of places and the likely demand for places in the future, along with the demand for Welsh medium education within the area of Llangennech. In recent years, the percentage of pupils attending the Welsh stream in both schools has increased significantly whilst the percentage of pupils attending the English stream in both schools has decreased, evidencing the demand for Welsh medium education. This will be a natural change for the school and ensures that the school is sufficient in providing Welsh medium education which meets the increasing demands.

There will be no change for current pupils at the school. Any pupils starting at the school, following implementation will be taught principally through the medium of Welsh, with English being taught as a subject at Key Stage 2.

Resourcing of education

A number of matters have been taken into account in reaching this decision, in particular the significant increase in the number of pupils attending the Welsh stream in recent years and the decrease in the number of pupils attending the English stream.

The Council has considered that the "New School", similar to Llangennech Infants and Llangennech Junior schools will be funded in accordance with the County's Fair Funding

policy and will receive resources on the same basis as any other school within the county, based on pupil numbers.

Should there be any future savings, these would be re-invested within the education service.

Objections to the Proposal

720 objections and 698 supportive comments were received in response to the statutory notice.

The Objection Report for this proposal is now available to view on Carmarthenshire County Council's website by following the web address below:

www.carmarthenshire.gov.wales/MEP-primaryschools

Please follow this link which takes you to the primary schools webpage and click on the link for Llangennech Infants and Llangennech Junior Schools.

The Council considered the objections and the supportive comments received and agreed that the proposal moves the schools naturally along the Welsh language continuum in accordance with Carmarthenshire's Welsh in Education Strategic Plan 2014-2017.

Referral of local authority decisions to the Welsh Ministers

Should any of the following bodies believe that an incorrect decision has been made by the local authority then under section 54 of the 2013 Act they may within 28 days refer the proposal to the Welsh Ministers for consideration:-

- Another local authority affected by the proposals;
- The appropriate religious body;
- The governing body of a voluntary or foundation school;
- A trust holding property on behalf of a voluntary or foundation school;
- A further education institution affected by the proposals.

Please contact Sara Griffiths of this department if you have any queries.

Yours sincerely,

Gareth Morgans
Director of Education & Children's Services